# Pecyn Cymorth Mathemateg i'r Teulu

Elfen graidd o'r Rhaglen Ysgolion a Theuluoedd yw annog teuluoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau mathemateg gartref. Mae National Numeracy wedi dylunio cyfres o weithgareddau Pecyn Cymorth Mathemateg i'r Teulu ar gyfer disgyblion Derbyn i Flwyddyn 6.

**Gweithgareddau**

Ym mhob pecyn ar gyfer pob grŵp blwyddyn mae yna tua un gweithgaredd yr wythnos ac mae'n cynnwys trosolwg fel y gall athrawon gynllunio sut i gysylltu'r gweithgareddau ag addysgu yn yr ystafell ddosbarth. Nid yw grwpiau blwyddyn wedi'u labelu ar y taflenni gweithgareddau, felly gall athrawon bori trwy becynnau gwahanol er mwyn gwahaniaethu. Mae pob gweithgaredd yn gysylltiedig â dysgu yn yr ystafell ddosbarth ac yn ymwneud â digwyddiadau tymhorol, gwyliau a mathemateg bob dydd.



Yn y sŵ

Pecyn Mathemateg Teulu

**Yn y sŵ, mae llawer o wahanol fathau o anifeiliaid. Mae gan rai 2 goes, rhai 4 coes, rhai mwy na 4 coes a rhai heb goesau o gwbl!**

Allwch chi a'ch teulu feddwl am anifeiliaid sŵ yr ydych yn eu hoffi.

Cyfrwch faint sy'n ffitio i bob grŵp yn ôl faint o goesau sydd ganddynt.

Gallech dynnu llun, pictogram, siart cadw cyfrif, siart bariau neu dabl.

Allwch chi feddwl am anifail i bob grŵp?

Pa grŵp oedd â'r mwyaf o anifeiliaid?

**Her:** Faint yn fwy oedd â 4 coes o'i gymharu â dim coesau?

sŵ

**Sylwadau teulu:**


**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Coladu, trefnu a chymharu gwybodaeth yn defnyddio siartiau cadw cyfrif, pictogramau, diagramau blociau neu dablau syml.

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau'n benagored ac nid ydynt yn chwilio am un ateb cywir. Mae hyn yn caniatáu i deuluoedd archwilio'r gweithgaredd gyda llai o bwysau a gorbryder a gallant fynd â'r dysgu i gyfeiriadau gwahanol. Mae gan bob gweithgaredd le i rieni/ofalwyr a disgyblion wneud sylwadau ar sut y maent yn teimlo am y gweithgaredd. I ddisgyblion iau, gallai hyn olygu llun o wyneb hapus.

**Llyfrau Lloffion**




Bydd pob disgybl sy'n cymryd rhan yn cael llyfr lloffion National Numeracy. Yna gellir gludo gweithgareddau yn y llyfr lloffion. Rydym yn argymell argraffu gweithgareddau mewn maint A4 neu A5. Mae'r llyfr lloffion yn cynnwys tudalennau gwag. Mae hyn er mwyn annog ffurfiau gwahanol o gofnodi, ac nid oes angen dull penodol i archwilio'r gweithgaredd. Mae lle diderfyn yn rhoi cyfle i'r disgybl ddatblygu dyfalbarhad.

**Cael teuluoedd i gymryd rhan**

Un o nodau gweithgareddau'r Pecyn Cymorth Mathemateg i'r Teulu yw annog sgyrsiau cadarnhaol am fathemateg gartref a chynyddu lefelau ymgysylltiad rhieni. Er mwyn i hyn fod yn llwyddiannus, mae'n bwysig bod amcanion y gweithgareddau a'r prosiect cyffredinol yn cael eu cyfleu i deuluoedd. Gall ysgolion ddefnyddio'r deunyddiau cyfathrebu a ddarperir i rannu gwybodaeth â rhieni/gofalwyr.

Rydym yn argymell cynllunio'n ofalus sut i lansio'r gweithgareddau gyda theuluoedd. Mae llawer o ysgolion wedi cael llwyddiant yn y gorffennol trwy gynnal digwyddiadau ysgol gyfan a gwahodd rhieni/gofalwyr i mewn i gwblhau gweithgaredd gyda'u plant. Mae gwaith hyrwyddo cadarnhaol parhaus yn bwysig, er enghraifft trwy gylchlythyrau, arddangosfeydd a thystysgrifau.

**Marcio ac Adborth**

Nid oes disgwyl i athrawon farcio'r gweithgareddau, ond gall cydnabyddiaeth (sylwad neu sticer ymdrech bach) fynd yn bell wrth annog ymgysylltiad rhieni.

Mae National Numeracy wedi rhoi tystysgrif i ysgolion i'w rhoi i'r disgyblion sy'n cymryd rhan. Gellid defnyddio'r rhain mewn gwasanaethau dathlu wythnosol.

**Adroddiadau National Numeracy**

Mae'n ofynnol i arweinwyr prosiectau roi gwybod i National Numeracy am lefel yr ymgysylltiad gan ddisgyblion a rhieni/gofalwyr. Mae'n bwysig bod athrawon yn olrhain faint o ddisgyblion sy'n cwblhau gweithgareddau a faint o rieni/ofalwyr sy'n ymgysylltu gartref.

**Rhwystrau i gyfranogiad**

Mae National Numeracy yn cydnabod y gallai rhai rhieni/gofalwyr a disgyblion wynebu rhwystrau ychwanegol wrth gwblhau'r gweithgareddau. Rydym wedi rhestru rhai syniadau i gefnogi'r teuluoedd hyn.

ADY

- Nid yw'r grŵp blwyddyn wedi'i nodi ar y gweithgaredd. Gall athrawon ddefnyddio gweithgareddau o grwpiau blwyddyn gwahanol er mwyn gwahaniaethu.
- Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau'n benagored, a gellir mynd â'r dysgu i gyfeiriadau gwahanol y mae'r disgybl a'r rhiant/gofalwr yn teimlo'n gyfforddus â nhw.

Saesneg fel Iaith Ychwanegol

- Cyn anfon y gweithgaredd adref, dylai'r athrawon fynd trwy'r gweithgaredd gyda phob disgybl.
- Gall rhieni lawrlwytho'r ap Microsoft Translator. Gallwch ddefnyddio'r ap i dynnu llun o ganllaw'r gweithgaredd a bydd yn ei gyfieithu i'r iaith a ddewiswyd.

Hyder y rhieni eu hunain

- Defnyddiwch yr adnoddau a ddarperir i annog rhieni i ddefnyddio Her National Numeracy.
- Darparwch ganllawiau a fideos esboniadol ar gyfer dulliau cyffredin.
- Anogwch rieni i fynd i'r gweithdy ‘Helpu Eich Plentyn i Fwynhau Mathemateg!’.
- Darparwch ffyrdd gwahanol i rieni ofyn am gymorth.